# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 1

CYSYNIADAU SYLFAENOL A DOGFENNAU ALLWEDDOL

### 1 Cyflwyniad

(1) Mae'r Rhan hon yn nodi cysyniadau sylfaenol sy'n cael effaith mewn perthynas â chwricwlwm ar gyfer unrhyw un o'r canlynol—

- (a) disgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir (ac eithrio'r rheini dros yr oedran ysgol gorfodol) ac mewn ysgolion meithrin a gynhelir;
- (b) plant y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar eu cyfer;
- (c) plant y darperir addysg ar eu cyfer o dan drefniadau a wneir gan awdurdod lleol yng Nghymru o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56).

(2) Mae'r Rhan hon hefyd yn cynnwys darpariaeth ynghylch dogfennau allweddol sy'n cefnogi cwricwlwm o'r math hwnnw.

(3) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriadau at gwricwlwm yn gyfeiriadau at gwricwlwm o'r math hwnnw; ac mae cyfeiriadau at ddisgyblion a phlant yn gyfeiriadau at y disgyblion a'r plant y cyfeirir atynt yn is-adran (1).

### 2 Y pedwar diben

(1) Pedwar diben cwricwlwm yw—

Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;

Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;

Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd;

Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at y pedwar diben yn gyfeiriadau at y dibenion hynny.

**3 Y meysydd dysgu a phrofiad**

(1) Y meysydd dysgu a phrofiad ar gyfer cwricwlwm yw—

Y Celfyddydau Mynegiannol
Y Dyniaethau
Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Iechyd a Lles
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
Mathemateg a Rhifedd.

(2) O fewn y meysydd dysgu a phrofiad, mae'r canlynol yn elfennau mandadol—

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
Cymraeg
Saesneg.

(3) Ond nid yw Saesneg i'w thrin fel elfen fandadol, at ddibenion y Ddeddf hon, ar gyfer cwricwlwm o fewn is-adran (4).

(4) Mae cwricwlwm o fewn yr is-adran hon os yw'n—

(a) cwricwlwm i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol nad ydynt wedi cwblhau'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dosbarth yn cyrraedd 7 oed ynddi;
(b) cwricwlwm ar gyfer addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;
(c) cwricwlwm ar gyfer addysg a ddarperir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56) (darpariaeth eithriadol o addysg mewn unedau cyfeirio disgyblion neu mewn mannau eraill: Cymru) i ddisgyblion neu blant nad ydynt wedi cyrraedd 7 oed.

(5) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at y meysydd dysgu a phrofiad yn gyfeiriadau at y meysydd a restrir yn is-adran (1).

(6) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at yr elfennau mandadol i'w dehongli yn unol â'r adran hon.

**4 Y sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol**

(1) Y sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol ar gyfer cwricwlwm yw—

Cymhwysedd Digidol
Llythrennedd
Rhifedd.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at y sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol yn gyfeiriadau at y sgiliau a restrir yn is-adran (1).

**5 Pŵer i ddiwygio adrannau 3 a 4**

Caiff rheoliadau ddiwygio adrannau 3 a 4.

**6 Cod yr Hyn sy'n Bwysig**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod ("Cod yr Hyn sy'n Bwysig") sy'n nodi cysyniadau allweddol ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad.

(2) Nid yw cwricwlwm yn cwmpasu maes dysgu a phrofiad oni bai ei fod yn cwmpasu'r cysyniadau hynny fel y'u nodir yng Nghod yr Hyn sy'n Bwysig.

(3) Nid yw addysgu a dysgu yn cwmpasu maes dysgu a phrofiad oni bai ei fod yn cwmpasu'r cysyniadau hynny fel y'u nodir yng Nghod yr Hyn sy'n Bwysig.

(4) O ran Gweinidogion Cymru—

(a) rhaid iddynt gadw Cod yr Hyn sy'n Bwysig o dan adolygiad, a

(b) cânt ei ddiwygio.

(5) Am ddarpariaeth bellach ynghylch Cod yr Hyn sy'n Bwysig, gweler adran 76.

**7 Y Cod Cynnydd**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod (y "Cod Cynnydd") sy'n nodi'r ffordd y mae cwricwlwm i wneud darpariaeth ar gyfer cynnydd gan ddisgyblion a phlant.

(2) Nid yw cwricwlwm yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnydd priodol oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod Cynnydd.

(3) Nid yw addysgu a dysgu yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnydd priodol oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod Cynnydd.

(4) O ran Gweinidogion Cymru—

(a) rhaid iddynt gadw'r Cod Cynnydd o dan adolygiad, a

(b) cânt ei ddiwygio.

(5) Am ddarpariaeth bellach ynghylch y Cod Cynnydd, gweler adran 76.

**8 Y Cod ACRh**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod (y "Cod ACRh") sy'n nodi themâu a materion sydd i'w cwmpasu gan elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

(2) Nid yw cwricwlwm yn cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod ACRh.

(3) Nid yw addysgu a dysgu yn cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod ACRh.

(4) Am ddarpariaeth bellach ynghylch y Cod ACRh, gweler adran 77.